

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Fynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (Cymru)

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn gyfystyr â cham-drin plant ac yn weithred droseddol. Mae'r diffiniad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn canllawiau statudol ac ym Mhrotocol Cymru Gyfan fel a ganlyn:

“Ystyr camfanteisio'n rhywiol ar blant yw gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin plant sy'n cynnwys cyfnewid rhyw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'mesurau i amddiffyn' neu anwyldeb. Mae natur agored i niwed y person ifanc a'r broses o baratoi i bwrpas rhyw a ddefnyddir gan gyflawnwyr yn golygu na allant adnabod natur gamfanteisiol perthnasoedd ac na allant roi cysyniad gwybodus”.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), cytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant dan 18 oed, a ymgorfforwyd ym Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae cam-drin plant yn tramgwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i nodau o ran darparu, amddiffyn a chyfranogiad yn uniongyrchol. Yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn benodol erthygl 34, mae'n rhaid i'r holl blant a phobl ifanc gael eu hamddiffyn rhag pob math o gamfanteisio rhywiol a cham-drin rhywiol.

Mae'r cynllun gweithredu cenedlaethol hwn yn nodi fframwaith a safonau gofynnol y dylai Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner weithio ar y cyd ac yn unigol tuag atynt ac adeiladu arnynt er mwyn:

- Atal ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag dioddef camfanteisio rhywiol;
- Rhoi cymorth ymatebol, priodol a chyson i'r rhai a adnabyddir fel rhai sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol;
- Cyfrannu at adnabod cyflawnwyr, tarfu arnynt a'u herlyn.

Pedwar canlyniad trosfwaol y cynllun gweithredu cenedlaethol hwn yw:

PARATOI:	Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn tybio bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd ac mae ganddynt amcanion penodedig i gefnogi'r canlynol:- - Y broses o adnabod plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol - Ystod o ymatebion ac adnoddau priodol sydd wedi'u bwriadu i wella canlyniadau llesiant i blant sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol
ATAL:	Mae gan Fyrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner raglen atal a gwasanaethau ymatebol i helpu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol a'u teuluoedd
AMDDIFFYN:	Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn mynd ati'n weithredol i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol, trwy gydweithio i gyflawni parhad ac effeithiolrwydd mewn cynlluniau gofal ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol
CANLYN:	Mae gan Fyrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner ddealltwriaeth eglur a chyffredin am y modd y gallant gyfrannu at darfu ar gyflawnwyr a'u herlyn ac at gefnogi dioddefwyr trwy ddull cyson sy'n canolbwyntio ar blant

Bwriedir i'r cynllun hwn gael ei ddefnyddio gan yr holl asiantaethau, yn rhai statudol ac anstatudol, sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu yn benodol i atal ac amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag mathau eraill o niwed.

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
-----------	----------------------------------	----------	-------------------------

1. PARATOI – Canlyniad trosfwaol:

Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn tybio bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd ac mae ganddynt amcanion penodedig i gefnogi'r canlynol :

- ***Y broses o adnabod plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol***
- ***Ystod o ymatebion ac adnoddau priodol sydd wedi'u bwriadu i wella canlyniadau llesiant i blant sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol***

1.1 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner wedi sefydlu ymateb strategol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n adlewyrchu canllawiau statudol ac sydd wedi'i fwriadu i atal ac amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin	1.1a Bydd canllawiau diogelu statudol gan gynnwys canllawiau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu deddfwriaeth newydd yn gywir gan gynnwys diffiniad eglur o gamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n creu cysylltiadau priodol ag ymddygiadau peryglus cysylltiedig eraill	Gorffennaf 2016	Llywodraeth Cymru
	1.1b Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cyfrannu at ddiwygiadau i BroTOCOL Cymru Gyfan ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a diffiniadau yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac yn cytuno arnynt	Medi2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.1c Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn mabwysiadu ac yn gweithredu diwygiadau i BroTOCOL Cymru Gyfan ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a diffiniadau yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
1.2 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner wedi sefydlu trefniadau gweithredol ac offer ar gyfer ymarferwyr i gefnogi'r broses o adnabod achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'i gwneud yn bosibl gweithredu ystod amserol o ymatebion priodol	1.2a Bydd effeithiolrwydd offeryn asesu SERAF yn cael ei werthuso ar draws asiantaethau a chymau i'w wella'n cael eu cymryd yn ôl yr angen	Gorffennaf 2016	Llywodraeth Cymru
	1.2b Bydd dadansoddiadau gwasanaethau o'r galw a'r angen yn cynnwys y rhai sy'n deillio o berygl / effaith camfanteisio'n rhywiol ar blant	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.2c Bydd argaeledd a defnyddioldeb prosesau/ offer asesu risgiau'n cael eu hadolygu a chymau i'w gwella'n cael eu cymryd fel y bo angen	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
1.3 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn tybio bod camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd ac wedi adnabod plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol fel blaenoriaeth gyffredin	1.3a Mae gan Fyrddau Diogelu Plant strategaeth i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a chynllun gweithredu cysylltiedig ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yng nghynlluniau gwaith y Byrddau Diogelu Plant	Mawrth 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.3b Mae Byrddau Diogelu Plant yn blaenoriaethu cynlluniau gwaith yn ôl materion lleol	Mawrth 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.3c Datblygu ymateb cenedlaethol i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant	Ionawr 2016	Llywodraeth Cymru

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
1.4 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cyfrannu at set ddata gyffredin sy'n cael ei goleuo gan dystiolaeth a chudd-wybodaeth leol i wella dealltwriaeth am gamfanteisio'n rhywiol ar blant, y modd y caiff ei broffilio a'r modd yr ymatebir iddo	1.4a Datblygu a chytuno ar set ddata genedlaethol i'w gwneud yn bosibl casglu data sy'n cofnodi proffil, mynychder ac ymatebion i gamfanteisio'n rhywiol ar blant yng Nghymru	Rhagfyr 2015	Llywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.4b Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cofnodi data ac yn ei anfon i Lywodraeth Cymru i oleuo prosesau lleol a chenedlaethol o goladu a dadansoddi data	Ebrill 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.4c Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad cryno ar y data a gyflwynwyd ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant	Ebrill 2016	Llywodraeth Cymru
	1.4d Datblygu systemau i rannu gwybodaeth am gamfanteisio'n rhywiol ar blant e.e. Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant i gyfrannu at rannu gwybodaeth yn effeithiol mewn achosion hysbys neu dybiedig o gamfanteisio'n rhywiol ar blant	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.4e Fel asiantaethau statudol sy'n bartneriaid i Fyrddau Diogelu Plant, bydd y gwasanaethau prawf (Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) yn cadw gwybodaeth am unigolion sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant. Dylai Byrddau Diogelu Plant (ac asiantaethau partner lle y bo'n briodol) sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
	rhannu'n effeithiol ymhlith partneriaid i gefnogi hyn 1.4f Dylai systemau sicrhau ansawdd ac adrodd ym maes diogelu gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
1.5 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn mynd ati'n weithredol i hysbysu holl aelodau'r gymuned ynghylch y rôl y gallant hwy ei chyflawni i wneud y gymuned yn fwy diogel rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant	1.5a Bydd Llywodraeth Cymru/Byrddau Diogelu Plant yn datblygu strategaethau a gweithgareddau cyffredinol i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant (a'r rheiny wedi'u bwriadu ar gyfer plant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'r cyhoedd)	Rhagfyr 2016	Llywodraeth Cymru/Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
1.6 Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn sicrhau bod risg ac effaith camfanteisio'n rhywiol ar blant yn rhan o hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff, sy'n cynnwys codi ymwybyddiaeth (gan gynnwys am y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol o ganlyniad i nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed), arwyddion rhybuddio a'r	1.6a Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cynnal adolygiad a dadansoddiad o'u hanghenion o ran hyfforddiant mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.6b Bydd Byrddau Diogelu Plant yn datblygu rhaglen hyfforddiant amlasiantaeth berthnasol sy'n hyrwyddo nodau ac amcanion y bwrdd mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant (sy'n ceisio ategu nid dyblygu hyfforddiant asiantaethau partner unigol)	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	1.6c Bydd is-grwpiau hyfforddiant Byrddau Diogelu Plant yn arwain ar hyfforddiant amlasiantaeth mewn perthynas â	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
cyfrifoldeb i hysbysu ynghylch pryderon ac ymateb iddynt	chamfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymddygiad peryglus cysylltiedig (e.e. plant sydd ar goll) ac yn adrodd wrth Fyrddau Diogelu Plant ar y cynnydd a wneir mewn perthynas â hyn		partner
1.7 Mae agenda gwella Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cael eu cefnogi trwy weithgarwch arolygu sy'n gwerthuso effeithiolrwydd gwasanaethau o ran hybu diogelwch a llesiant plant a phobl ifanc	1.7a Dylai'r holl fframweithiau arolygu gynnwys ffocws ar ddiogelu a llesiant 1.7b Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn rhannu adroddiadau arolygu a chynlluniau gweithredu sy'n deillio o'r rhain i oleuo amcanion cyffredin Byrddau Diogelu Plant a phartneriaid mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a diogelu	Rhagfyr 2016 Yn flynyddol/ Rhagfyr 2016	Arolygiaethau Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
2. ATAL - Canlyniad trosfwaol: Mae gan Fyrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner raglen atal a gwasanaethau ymatebol i helpu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol a'u teuluoedd			
2.1 Mae parodrwydd asiantaethau ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith yn cynnwys ffocws ar ganlyniadau llesiant plant sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol	2.1a Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn datblygu mecanweithiau i adnabod, mapio ac asesu risg a phatrymau camfanteisio'n rhywiol ar blant yn eu hardaloedd 2.1b Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn datblygu dull arfer gorau mewn perthynas â lleoliadau plant sy'n derbyn gofal ar gyfer plant a phobl ifanc (sydd mewn perygl mawr o ddioddef camfanteisio rhywiol) trwy drefniadau cyfathrebu a chydweithredu effeithiol. (Dylai ALlau fod yn ymwybodol o'r gofyniad yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 i atgyfeirio penderfyniadau am leoliadau y tu allan i'r ardal at banel, a hysbysu partneriaid perthnasol am y lleoliad)	Rhagfyr 2016 Ebrill 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
2.2 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner wedi adnabod ystod o wasanaethau ataliol i gefnogi'r plant sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol yn eu hardal leol	2.2a Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cynnal/ diweddarw asesiad o anghenion sy'n eu galluogi i ddeall: - - Y galw am wasanaethau mewn perthynas ag atal camfanteisio'n rhywiol ar blant - Effaith ac effeithiolrwydd gweithgarwch a gwasanaethau ataliol sydd ar gael i helpu'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol yn eu hardal - Effaith ac effeithiolrwydd gweithgarwch sydd wedi'i fwriadu i newid canfyddiad, cymhelliaid ac ymddygiad y	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
	rhai sy'n debygol o droseddu - Canfod unrhyw fylchau mewn gwasanaethau a meysydd i'w datblygu - Effaith ac effeithiolrwydd gweithgarwch a gwasanaethau ataliol wedi'u targedu sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd â nodweddion penodol sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu risgiau penodol sy'n gysylltiedig â chamfanteisio'n rhywiol ar blant		
2.3 Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn dwyn ei gilydd i gyfrif am eu cyfraniad at ddiogelwch ac amddiffyn plant a phobl ifanc gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol ac yn herio diffygion mewn ymarfer	2.3a Dylai Llywodraeth Cymru, Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner ddatblygu mecanweithiau mewn perthynas ag atal camfanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn:- - Monitro ymarfer a sicrhau y defnyddir ymateb amlasiantaeth cyson - Rhannu arfer da a hybu diwylliant dysgu	Rhagfyr 2016	Llywodraeth Cymru, Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	2.3b Diwygio ymyriadau i adlewyrchu'r darlun lleol a sicrhau bod gweithgarwch yn cael ei ddiweddar'u'n gyson mewn modd sy'n berthnasol i'r galw am wasanaethau a materion sy'n dod i'r amlwg	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
2.4 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn gweithredu i wneud Cymru'n lle digroeso i bobl sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant a grymuso plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol	2.4a Dylai Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner ddatblygu mecanweithiau sy'n codi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a sut i hysbysu ynghylch pryderon gan gynnwys: - Ymgyrchoedd wedi'u targedu (ar gyfer grwpiau megis plant a phobl ifanc agored i niwed, rhwydweithiau hil a ffydd, staff economi hwyr y nos) - Dylai Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner sicrhau y darperir hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
	hwnnw'n eu cynorthwyo i fod yn wiliadwrus ac yn hyderus i weithredu ar ymddygiad peryglus ac arwyddion o gam-drin, gan gynnwys camfanteisio - Gwybodaeth neu fynediad at arbenigedd mewn perthynas â risgiau penodol megis y rhai sy'n gysylltiedig â: rhyw, anabledd, diwylliant, technoleg fodern/rhwydweithio cymdeithasol, statws plentyn sy'n derbyn gofal a.y.b.		

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
3. AMDDIFFYN – Canlyniad trosfwaol: <i>Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn mynd ati'n weithredol i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol, trwy gydweithio i gyflawni parhad ac effeithiolrwydd mewn cynlluniau gofal ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol</i>			
3.1 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn hybu llesiant plant a phobl ifanc sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol gan gynnwys y rhai sydd mewn mwy o berygl o ddioddef camfanteisio rhywiol o ganlyniad i nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed	3.1a Dylai Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner adolygu, gwerthuso a diweddarau eu trefniadau gweithredol a'u rhaglenni hyfforddi i sicrhau, mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant: - Bod trothwyon ar gyfer ymyrryd yn cael eu deall a'u cymhwyso'n gyson - Bod staff yn cael goruchwyliaeth a chymorth digonol - Bod y rhyngwyneb rhwng mecanweithiau asesu risgiau a rheoli risgiau'n eglur ac yn cael eu deall - Bod partneriaid yn cydweithio ar y cyfle cyntaf i gydgyssylltu asesiadau a chymau gweithredu sydd wedi'u bwriadu i liniaru risg	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
3.2 Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ystyried fel rhan o unrhyw broses/ mecanweithiau rheoli risgiau	3.2a Mae plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi trwy gynllun amddiffyn plant/ gofal a chymorth ymatebol sydd wedi'i fwriadu i leihau'r risg yn seiliedig ar angen unigol	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
3.3 Mae Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner wedi adnabod yr ystod o wasanaethau sydd ar gael/ y mae eu hangen, i helpu'r	3.3a Bydd Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner yn cynnal/ diweddarau asesiad o anghenion sy'n eu galluogi i ddeall: - - Y galw am wasanaethau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
4. CANLYN – Canlyniad trosfwaol: <i>Mae gan Fyrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner ddealltwriaeth eglur a chyffredin am y modd y gallant gyfrannu at darfu ar gyflawnwyr a'u herlyn ac at gefnogi dioddefwyr trwy ddull cyson sy'n canolbwyntio ar blant</i>			
4.1 Gwneud Cymru'n lle digroeso i bobl sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant trwy ddatblygu strategaethau ymchwilio cadarn i darfu ar weithgarwch cyflawnwyr ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn well	4.1a Dylid datblygu proffiliau o broblemau ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a dylent gynnwys data amlasiantaeth a fydd yn cael ei rannu gyda Byrddau Diogelu Plant.	Gorffennaf 2016	Yr Heddlu
	4.1b Dylai proffiliau gael eu hadolygu'n flynyddol gyda chuddwybodaeth briodol i helpu i sicrhau ymateb amlasiantaeth.	Yn flynyddol/Rhagfyr 2016	Yr Heddlu
	4.1c Sicrhau bod pobl sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael eu herlyn lle ceir tystiolaeth ddigonol i wneud hynny a bod dioddefwyr camfanteisio rhywiol yn cael eu gwarchod yn briodol yn y llys	Rhagfyr 2016	Yr Heddlu
	4.1d Dylid datblygu mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau prawf i sicrhau ymateb cydgysylltiedig ym maes cyfiawnder troseddol	Gorffennaf 2016	Yr Heddlu a'r Gwasanaethau Prawf
	4.1e Dylai rhaglenni hyfforddiant ac ymwybyddiaeth gynnwys strategaethau tarfu ac amddiffyn	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
4.2 Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Heddlu a phartneriaid yn cydweithio i	4.2a Dylid arfogi gweithwyr proffesiynol i ddeall strwythur Gwasanaeth Erlyn y Goron a chasglu tystiolaeth o safon uchel yn gyson ac yn unol â Sicrhau'r Dystiolaeth Orau	Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
gyflawni ymchwiliadau sydd o safon uchel ac yn amserol ac sy'n diwallu anghenion y dioddefwr ac yn dod â cham-drinwyr o flaen eu gwell	4.2b Datblygu perthnasoedd gweithio rhwng asiantaethau partner ac Uned Trais a Throseddau Rhyw Difrifol (RASSO) Gwasanaeth Erlyn y Goron	Gorffennaf 2016	partner Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
4.3 Dealltwriaeth gynyddol am anghenion dioddefwyr ifanc a thystion ifanc i achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan roi llais iddynt a sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg, yn sensitif ac mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran	4.3a Dadansoddiad o brofiadau i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu trin yn sensitif ac yn cael cymorth digonol 4.3b Datblygu dull o ymateb i ddioddefwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant lle mae eu hanghenion yn cael eu cydnabod yn gyson, lle maent yn cael eu trin yn deg ac yn sensitif ac yn cael cymorth mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran ac sy'n osgoi bwrw bai	Rhagfyr 2016 Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
4.4 Canfod a chwalu grwpiau troseddau cyfundrefnol sy'n targedu plant a phobl ifanc yn ein cymunedau ac yn camfanteisio arnynt	4.4a Dylai Heddluoedd Cymru gael eu cynorthwyo gan asiantaethau partner i gynnal ymgyrchoedd mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n ymwneud â grwpiau a gangiau 4.4b Dylai Heddluoedd Cymru gydweithio gyda'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol gan gynnwys Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein	Rhagfyr 2016 Rhagfyr 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner Yr Heddlu
4.5 Mae Heddluoedd Cymru yn cydweithio gydag asiantaethau partner i ganfod cyflawnwyr sy'n targedu pobl ifanc yn ein	4.5a Dylai rhaglenni hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau gynnwys strategaethau tarfu ac amddiffyn	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner

Canlyniad	Camau gweithredu y mae eu hangen	Amserlen	Cyfrifoldeb am gyflawni
cymunedau a tharfu arnynt	4.5b Dylai Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner ddatblygu trefniadau amlasiantaeth ffurfiol i reoli risgiau o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant ac amddiffyn pobl ifanc agored i niwed yn eu hardal mewn modd effeithiol	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	4.5c Dylai Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner gryfhau camau gorfodi a'r modd yr ymlynir wrth ddeddfau trwyddedu	Gorffennaf 2016	Byrddau Diogelu Plant ac asiantaethau partner
	4.5d Defnyddio gorchmynion atodol a sifil i gynyddu'r effaith i'r eithaf er mwyn cynorthwyo ymchwiliadau a chyfyngu ar droseddwy'r a'u rheoli gan felly gefnogi a diogelu dioddefwyr	Rhagfyr 2016	Yr Heddlu